# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 2

CYDGYSYLLTU A CHYNLLUNIO GOFAL AR GYFER DEFNYDDWYR GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Cydgysylltu gwasanaethau iechyd meddwl*

### 17 Dyletswydd i gydgysylltu darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl

(1) At ddibenion gwella effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir i glaf perthnasol, rhaid i ddarparydd gwasanaeth iechyd meddwl gymryd pob cam rhesymol i sicrhau–

(a) bod gwahanol wasanaethau iechyd meddwl y mae'n gyfrifol am eu darparu i glaf yn cael eu cydgysylltu â'i gilydd; a

(b) bod y gwasanaethau iechyd meddwl y mae'n gyfrifol am eu darparu i'r claf yn cael eu cydgysylltu ag unrhyw wasanaethau eraill y mae unrhyw ddarparydd gwasanaeth iechyd meddwl arall yn gyfrifol am eu darparu;

(c) bod y gwasanaethau iechyd meddwl y mae'n gyfrifol am eu darparu yn cael eu cydgysylltu ag unrhyw wasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac sy'n cael eu darparu ar gyfer y claf gan gorff gwirfoddol.

(2) Caiff darparydd gwasanaeth iechyd meddwl geisio cyngor cydgysylltydd gofal claf o ran sut y dylai'r darparydd gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1).

(3) Caiff cydgysylltydd gofal ar unrhyw adeg roi cyngor i ddarparydd gwasanaeth iechyd meddwl o ran sut y dylai'r darparydd gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1).

(4) Rhaid i ddarparydd gwasanaeth iechyd meddwl roi sylw i unrhyw gyngor a roddir o dan is-adran (2) neu (3) wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1).

(5) Yn yr adran hon gwasanaethau iechyd meddwl yw–

(a) gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd;

(b) gwasanaethau o dan Ran 1 o'r Mesur hwn;

(c) pethau a wneir wrth arfer pwerau awdurdod lleol yn adran 8 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 mewn cysylltiad â pherson sy'n destun gwarcheidiaeth yr awdurdod.

(6) Yn yr adran hon ystyr “corff gwirfoddol” yw corff y mae ei weithgareddau'n cael eu cyflawni mewn modd ac eithrio ar gyfer gwneud elw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 6.6.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(f)**

**I3** A. 17 mewn grym ar 1.10.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(g)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 17.